

Roedd **Hanna** yn hoffi gwisgo hosanau hir. Rhai **hiiiiir** iawn!

Roedd hosanau **Hanna** mor hir roedden nhw'n mynd yr holl ffordd i fyny heibio ei phengliniau!

Hoff bâr **Hanna** oedd ei hosanau smotiog **coch** a **gwyrdd**.



Byddai **Hanna** yn gwisgo ei hosanau smotiog **coch** a **gwyrdd** bob cyfle posib.

Byddai'n eu gwisgo i fynd i'r **llyfrgell**.

Byddai'n eu gwisgo wrth reidio ei **beic**.

Byddai'n eu gwisgo wrth chwarae yn y **parc**.

Ac un diwrnod, gwisgodd **Hanna** yr hosanau smotiog **coch** a **gwyrdd** i fynd am bicnic gyda'i theulu.

"Ydy pawb yn barod i fynd am bicnic?" holodd Mam **Hanna** a **Siôn**.

Roedd y tri ohonynt, **Hanna**, ei brawd hŷn **Siôn**, a'u Mam yn edrych ymlaen at y cyfle i fynd am bicnic.

Cyn pen dim, roedd y **fasged** wedi ei llenwi gyda **brechdanau**, **creision**, **mefus** a **bisgedi siocled**.



Roedd y **flanced** wedi ei phlygu'n barod i gael ei llusgo i'r car. Ac o fewn yr awr roedd y teulu wedi cerdded mewn un rhes hir i mewn i'r car yn barod am y daith.

"Dyma ni! Ni wedi cyrraedd," cyhoeddodd Mam **Hanna** a **Siôn**.

Neidiodd **Hanna**, **Siôn**, a'u Mam allan o'r car ar unwaith.

Ond, wrth i Mam **Hanna** godi'r **fasged** o'r car ... torrodd y **fasged** yn deilchion.



Aeth y **brechdanau**, **creision**, **mefus** a'r **bisgedi siocled** i bobman.



Rhedodd y teulu o amgylch y car i gasglu popeth ynghyd.

Ond nawr doedd unlle i'r teulu gadw'r bwyd, ac roedd wâc hir o'u blaenau...

"Mae gen i syniad!" bloeddiodd **Hanna**.



Dechreuodd **Hanna** stwffio'r **brechdanau**, **creision**, **mefus** a'r **bisgedi siocled** i lawr ei hosanau hir smotiog **coch** a **gwyrdd**.



Roedd hosanau **Hanna** mor hir roeddent yn gallu dal popeth, gan gynnwys pob briwsionyn!



Felly, i ffwrdd â'r teulu i ffeindio'r man gorau ar gyfer y picnic.

Un ar ôl y llall crwydrodd y teulu y caeau. Roedd Mam **Hanna** a **Siôn** yn arwain y ffordd, yn ail yn y rhes oedd **Siôn** yn cario'r flanced bicnic, ac roedd **Hanna**, a'i hosanau hir llawn bwyd, yng nghefn y rhes.

Ond, yn ddjarwybod i'r teulu, roedd **Hanna**, a'i hosanau hir llawn bwyd, wedi dechrau denu sylw.

Sylw gan anifeiliaid y caeau...

Un ar ôl y llall ymunodd anifeiliaid y caeau â'r rhes.

Yn gyntaf, ymunodd **Millie** y **ci** â'r rhes.



Yna, ymunodd **Gethin** y **gath** â'r rhes.

Yna, ymunodd **Lisa** y **llygoden** â'r rhes.

Yna, ymunodd **Arthur** yr **arth** â'r rhes.

Ac yn olaf, ymunodd **Francesca** y **frân** â'r rhes.

Roedd y rhes bellach yn cynnwys Mam, **Siôn**, **Hanna**, **Millie** y **ci**, **Gethin** y **gath**, **Lisa** y **llygoden**, **Arthur** yr **arth**, a **Francesca** y **frân**.

“Dyma’r man gorau ar gyfer y picnic!” cyhoeddodd Mam **Hanna** a **Siôn**.

Trodd Mam **Hanna** a **Siôn** i greu cylch ar gyfer y picnic, ond stopiodd yn y fan â’r lle.

Agorodd ei llygaid yn fawr, mor fawr â’r blaned Mawrth.

Yna gweiddodd,

“Aaaaahhhh!”

Trodd **Siôn** a **Hanna** o amgylch i weld **Millie** y **ci**, **Gethin** y **gath**, **Lisa** y **llygoden**, **Arthur** yr **arth**, a **Francesca** y **frân** yn sefyll y tu ôl iddynt mewn rhes hir.

Edrychodd yr anifeiliaid yn eiddgar ar **Hanna** a’i hosanau hir smotiog **coch** a **gwyrdd**.

Mewn un **wmff** mawr, eisteddodd yr anifeiliaid mewn hanner cylch.

Yn araf, eisteddodd **Hanna**, **Siôn**, a’u Mam ar y glaswellt i greu cylch gyda’r anifeiliaid.

Gyda bysedd crynedig, tynnodd **Hanna** y **brechdanau**, **creision**, **mefus** a **bisgedi siocled** o’i hosanau hir.

Dosbarthodd **Hanna** y danteithion i bawb yn eu tro.






Yn gyntaf, bwytaodd **Millie** y **ci** y **frechdan** ham.

Yna, bwytaodd **Gethin** y **gath** y **frechdan** tiwna.

Yna, bwytaodd **Lisa** y **llygoden** briwsion y **creision**.

Yna, bwytaodd **Arthur** yr **arth** y **mefus**.

Ac yn olaf, bwytaodd **Francesca** y **frân** y **bisgedi siocled**.



Roedd **Hanna**, **Siôn**, a'u Mam methu credu'i llygaid.

Roedd y tri ohonynt yn cael picnic gydag **ANIFEILIAID** y cae!

O fewn dim, roedd yr wyth ohonynt gyda boliau llawn ac yn chwerthin yn braf. Dyna i chi bicnic a hanner!

Diolch byth am hosanau hir smotiog **coch** a **gwyrdd Hanna**!

Awdur: Rhiannon Lloyd Williams

Darlunydd: Sioned Medi Evans